Datganiad Grant Amddifadedd Ysgol Cynwyl Elfed

Dyrennir y Grant Amddifadedd Disgyblion i ysgolion â disgyblion sy'n dod o deuluoedd incwm isel ac y gwyddys eu bod ar hyn o bryd yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim (e-FSM) a disgyblion sydd wedi derbyn gofal yn barhaus am fwy na chwe mis (LAC).

Disgwylir i ysgolion ddefnyddio'r cyllid hwn i'r eithaf i gyflwyno strategaethau cynaliadwy fydd yn arwain yn gyflym at newidiadau i ddysgwyr sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim neu sy'n LAC.

Fel ysgol rydym wedi cytuno ar y tri cham a ganlyn:

1. nodi'r grŵp targed o ddisgyblion, ei nodweddion a'i anghenion
2. cynllunio ymyraethau sy'n gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau
3. monitro a gwerthuso effaith adnoddau

Yn 2015-16 rhoddwyd i Ysgol Cynwyl Elfed ddyraniad Grant Amddifadedd disgyblion o £5800.00 .

Yn Ysgol Cynwyl Elfed mae gennym gynllun cynhwysfawr, sydd wedi'i gytuno a'i fonitro gan Awdurdod Lleol Sir Gaerfyrddin ac ERW, i hyrwyddo cynnydd a chael gwared ar rwystrau i ddysgu i fyfyrwyr sy'n gymwys ar gyfer y cyllid hwn.

Rydym wedi defnyddio'r cyllid sydd ar gael i:

- i wella dysgu ac addysgu drwy ddarparu rhaglen gefnogi, sy'n cynnwys athro arbenigol a chymorthyddion i arwain grwpiau ffocws ac ymyrraeth;
- darparu rhaglenni ymyrraeth a chymorth y profwyd eu bod yn cael yr effaith fwyaf a'u bod yn gynaliadwy fel Chwarae Cadarnhaol, CHATT, Dal i fyny, siarad ac iaith, llythrennau a synau a Hwb Ymlaen;
- darparu hyfforddiant penodol o safon uchel i staff ysgolion ar yr uchod a strategaethau ychwanegol;
- gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion eraill, y gymuned a sefydliadau eraill, sy'n cynnwys arbenigwyr meddygol a chymorth;

Mae ein cynllun manwl sy'n cynnwys manylion mewn perthynas â sut rydym yn gwario'r grant ar gael gan y Pennaeth.